Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn ysgol gynhwysol, groesawgar a chyfeillgar sydd yn rhoi bri ar sicrhau'r lles gorau posibl ar gyfer pob disgybl. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r cyfleoedd a gânt trwy eu profiadau dysgu. Maent yn gwrtais a pharchus iawn gyda'i gilydd ac ymwelwyr i'r ysgol ac mae eu hymddygiad yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu ac, o ganlyniad, mae disgyblion  yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, rhifedd a digidol o'u mannau cychwyn. Maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Er hyn, mae disgyblion yn dueddol o ddefnyddio Saesneg fel iaith ar gyfer cymdeithasu a chyfathrebu â chyfoedion wrth drafod eu gwaith yn yr ysgol, gan gynnwys yn ystod gwersi cyfrwng y Gymraeg.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu symbylus a diddorol sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn effeithiol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at y broses o gynllunio'r cwricwlwm ac mae eu syniadau a'u hoffterau yn cael eu hymgorffori yn y themâu a'r gweithgareddau yn fedrus. Mae athrawon yn sefydlu perthynas weithio annwyl a chefnogol â disgyblion ac mae'r ardaloedd dysgu yn llawn bwrlwm ac egni. Ar y cyfan, maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb disgyblion a'u hannog i weithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw cyflymder sesiynau bob tro'n ddigon cyflym ac nid yw adborth bob tro'n sicrhau bod disgyblion yn gwella eu gwaith yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth yn arweinydd effeithiol a chadarn. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hunain ac eraill ac mae ei gweledigaeth yn seiliedig ar sicrhau bod bob disgybl yn hapus a diogel. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar a gweithgar sy'n cydweithio'n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol gyda gofal ac angerdd canmoladwy ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Maent yn darparu cefnogaeth gadarn i arweinwyr a staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i hadnoddau.

# Argymhellion

**A1** **Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar**

**A2** **Rhannu’r arferion addysgu gorau er mwyn sicrhau cyflymder addas i’r sesiynau dysgu ac ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion wella’u gwaith**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 407 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 281 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 65 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 15.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/12/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.